

Rhif: WG43713



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Ymgynghoriad ar y  
Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Arfaethedig

Dyddiad cyhoeddi: 23 Tachwedd 2021  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 22 Chwefror 2022

# Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynigion Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg sy'n cynnig pecyn o ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi.

## Sut i ymateb

Dylid ebostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **22 Chwefror 2022** hwyraf.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [lyw.cymru/ymgyngoriadau](http://lyw.cymru/ymgyngoriadau)

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran y Gymraeg  
Llywodraeth Cymru  
Doc Fictoria  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1TH

<https://lyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg>

ebost:

[UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales](mailto:UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgyszerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Rhagair y Gweinidog

Mae niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr wedi ysgogi teimladau cryf mewn rhai cymunedau yng Nghymru ers cryn dipyn o flynyddoedd. Yn y cymunedau hyn, yn aml, ceir ymdeimlad o anghyfiawnder bod pobl yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai leol gan y rheiny sy'n prynu ail gartrefi neu gartrefi i'w gosod fel llety gwyliau tymor byr. Rydym ni'n benderfynol o fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn aml, lleolir ail gartrefi yn y cymunedau Cymraeg ac o'u cwmpas, a gall hyn arwain at batrymau perchenogaeth tai sy'n effeithio'n andwyol ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau sy'n greiddiol i ffyniant hirdymor ein hiaith. Mae ail gartrefi, ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau ehangach eraill, yn effeithio ar fforddiadwyedd ac argaeledd tai i bobl leol ac yn codi prisiau yn y farchnad dai leol, weithiau yn ddramatig

Nid yw'n anodd gweld y gall patrwm lle bydd pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn benodol yn gadael eu cymunedau er mwyn dod o hyd i dai fforddiadwy mewn ardaloedd eraill yn gallu bygwth dyfodol yr iaith yn y cymunedau y maent yn eu gadael.

Ym mis Mawrth 2021, fe wnaethom ni groesawu adroddiad Dr Simon Brooks, ['Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru'](#)<sup>1</sup>. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yng Ngwynedd ac Ynys Môn, sef ['Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau'](#)<sup>2</sup>, ac mae'n ystyried effaith bosibl niferoedd anghymesur o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ar gymunedau, yn enwedig yng nghyd-destun y Gymraeg. Mae'r argymhellion wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol fel sylfaen i'r camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn mynd i'r afael yn gadarn â'r heriau hyn.

Mae sicrhau y gall pobl leol fforddio byw yn y cymunedau lle cawsant eu magu, a bod y Gymraeg yn ffynnu fel iaith gymunedol yn yr ardaloedd hynny, yn nodau strategol allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae ein [Rhaglen Lywodraethu](#)<sup>3</sup> yn cynnwys nifer o ymrwymadau yn hyn o beth, ac yn arbennig yr addewid i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel ychwanegol i'w rhentu ledled Cymru a chreu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Ar 6 Gorffennaf, amlinellodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, [ein dull gweithredu tair haen uchelgeisiol](#)<sup>4</sup>, sy'n cynnwys pecyn o ymyraethau. Er mwyn mynd i'r afael â fforddiadwyedd, byddwn yn targedu ac yn teilwra ein rhaglenni tai presennol ym mhob deiliadaeth. Wrth wneud hyn, byddwn yn defnyddio ein profiad o gyflwyno rhaglenni megis Prynu Cartref, ac yn hyrwyddo atebion creadigol yr ydym wedi eu gweld mewn sawl rhan o Gymru. Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau i'r system a'r fframwaith rheoleiddio. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi yn sgil ail gartrefi, ein nod yw gwella'r ffordd y caiff llety gwyliau tymor byr a chartrefi ychwanegol eu rheoli. Credwn y dylai ein systemau trethu cenedlaethol a lleol gael eu dylunio i sicrhau bod perchenogion ail gartrefi yn gwneud cyfraniad ariannol teg ac effeithiol i'r cymunedau y maent yn prynu tai ynddynt.

Ochr yn ochr â hyn, yn y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol i'r gymuned, bydd ein Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn chwarae rhan hollbwysig yn ein hymateb. Byddwn yn datblygu pecyn o ymyraethau a fydd yn gweithio gyda'n dull gweithredu ar y cyd er mwyn cefnogi a diogelu cymunedau Cymraeg. Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yn cydnabod pwysigrwydd y cymunedau hyn fel manau sy'n hwyluso defnyddio'r iaith fel

<sup>1</sup> [Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd | LLYW.CYMRU](#)

<sup>2</sup> <https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/s27926/Atodiad%202.pdf?LLL=1>

<sup>3</sup> [Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU](#)

<sup>4</sup> [Cyfarfod Llawn 06/07/2021 - Senedd Cymru \(cynulliad.cymru\)](#)

rhan naturiol o fywyd bob dydd. Felly, mae angen inni lunio cynlluniau economaidd, cymunedol ac ieithyddol yn ofalus er mwyn galluogi cymunedau Cymraeg i fod yn hyfyw yn economaidd ac yn ieithyddol. Rhaid sicrhau bod modd i bobl, yn enwedig ein pobl ifanc, allu fforddio byw a gweithio yn y cymunedau Cymraeg hyn, a gwneud cyfraniad gwerthfawr atynt.

Mae hwn yn faes cymhleth, a bydd gan bobl amrywiaeth eang o safbwyntiau ar sut ddylai Llywodraeth Cymru ymateb. Rydym felly yn annog pawb yn y cymunedau yr effeithir arnynt a thu hwnt ledled Cymru i ymateb i'r ymgynghoriad hwn, p'un a ydynt yn byw, yn rhedeg busnesau, yn berchen ar eiddo, neu'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cymunedau hyn i'n cynorthwyo i ffurfio ein Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

**Jeremy Miles AS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

# Y Cyd-destun

## Fforddiadwyedd, Ail Gartrefi a'r Gymraeg

Mae cryn dipyn o sylw wedi bod ledled Cymru, y DU a thu hwnt, i'r anawsterau y gall pobl – yn enwedig pobl ifanc – eu cael wrth geisio prynu neu rentu tai fforddiadwy o ansawdd. Yn aml, mae'r anawsterau hynny ynghlwm wrth faterion sy'n ymwneud ag ail gartrefi. Mae hyn hefyd yn codi cwestiynau am gynaliadwyedd ein gwasanaethau cymunedol yn ogystal â'r ffaith nad yw cartrefi gwag yn ychwanegu dim at gymunedau.

Mae ail gartrefi yn cyfrannu at yr her o ran fforddiadwyedd ac ynghlwm wrthi, ond ni ellir dweud mai ail gartrefi yw'r *unig* 'broblem'. Wrth geisio datrys materion ynghylch fforddiadwyedd, nid ydym, drwy wneud hynny, am greu heriau o'r newydd.

Rydym yn cynnig ffordd o weithio sy'n ceisio mynd i'r afael â materion craidd fforddiadwyedd mewn cymunedau gwledig ac ar hyd yr arfordir, drwy gyfrwng gweithredu gennym ni yn Llywodraeth Cymru a chan yr awdurdodau lleol. Mae prif elfennau'r cynllun fel a ganlyn:

- **Cymorth:** targedu a theilwra ein rhaglenni tai presennol, ym mhob deiliadaeth, yn ogystal â datblygu a threialu dulliau newydd o weithredu.
- **Y system a'r fframwaith rheoleiddio:** rheoli llety gwyliau tymor byr ac ail gartrefi ychwanegol yn well, ynghyd â rheoli safonau llety gwyliau tymor byr sydd eisoes yn bodoli a rhai ychwanegol, drwy newid y system a'r fframwaith rheoleiddio.
- **Cyfraniad tecach:** ceisio gwneud yn siŵr bod y systemau trethu cenedlaethol a lleol yn sicrhau y gall perchenogion ail gartrefi gyfrannu'n deg ac yn effeithiol at y cymunedau y maent yn prynu tai ynddynt.

At hynny, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i bedwar cam allweddol sy'n ymwneud â fforddiadwyedd:

- Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu.
- Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.
- Cadw'r cynnydd o 1% yn y Dreth Trafodiadau Tir a godir ar bryniannau ail gartrefi.
- Archwilio a datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol – a allai gynnwys cyfraddau lleol i'r Dreth Trafodiadau Tir – i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.

Ym mis Awst, gwnaethom lansio ymgynghoriad ar newidiadau posibl i drethi lleol a allai helpu awdurdodau lleol i reoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Rydym hefyd wedi comisiynu darn o waith yn edrych ar sefydlu cynllun cofrestru neu drwyddedu statudol ar gyfer gweithredwyr llety gwyliau yng Nghymru. I atgyfnerthu ein sail dystiolaeth, rydym wedi comisiynu [astudiaeth ddesg](#)<sup>5</sup> o dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ymyraethau a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid sy'n berthnasol i'r materion sy'n gysylltiedig ag ail gartrefi. Rydym hefyd wrthi'n ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r system sy'n rheoli datblygiadau a pholisi cynllunio yng Nghymru er mwyn cefnogi awdurdodau cynllunio lleol i reoli ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Byddwn yn mynd ati i dreialu nifer o'r ymyraethau a nodir fel rhan o'n dull gweithredu tair haen ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn yr ardaloedd peilot a thu hwnt er mwyn

---

<sup>5</sup> [Ymchwil i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar ail gartrefi | LLYW.CYMRU](#)

meithrin gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg, a chreu sail dystiolaeth gryfach yn seiliedig ar hynny.

Mae heriau o ran fforddiadwyedd yn bodoli ar hyd a lled Cymru. Ond mae llawer o'r trafod wedi canolbwyntio ar yr effaith ar gadarnleoedd y Gymraeg, yn enwedig mewn rhai cymunedau gwledig ac arfordirol. Yn y cymunedau hyn, ac mewn rhai tebyg, mae cynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol yn un gwahaniaeth allweddol a dyna pam ein bod yn datblygu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, sy'n adeiladu ar y ffyrdd o weithio a gynigir uchod ac yn eu hategu.



## Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Mae paratoi Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn ein *Rhaglen Lywodraethu 2021-2026*. Mae'r cynllun drafft hwn yn ystyried sut y gallai'r ymyraethau cenedlaethol gael eu cefnogi gan fentrau eraill er mwyn gweithio gyda'i gilydd fel pecyn cytbwys i ddiogelu cymunedau Cymraeg ac i sicrhau eu bod yn gymunedau cynaliadwy a hyfyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, lle gall y Gymraeg ffynnu.

Yn ei adroddiad, a gomisiynwyd gan Academi Hywel Teifi, '*Ail Gartrefi: Datblygu polisiau newydd yng Nghymru*,' darparodd Dr Simon Brooks ddatdarsoddiad cytbwys o effeithiau posibl niferoedd mawr o ail gartrefi ar ein cymunedau. Amlinellodd hefyd yr heriau sy'n wynebu cymunedau Cymraeg a'r angen i gynnal y cymunedau hynny.

Mae Dr Brooks hefyd yn cydnabod gwerth yr economi ymwelwyr yng Nghymru ac rydym ninnau'n cydnabod y cyfraniad pwysig y gall perchenogion ail gartrefi a busnesau llety gwyliau tymor byr ei wneud i'r economi honno, ac i elfennau eraill o'n heconomïau lleol. Mae Cymru wastad wedi cal ei hadnabod fel gwlad groesawgar. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod yr effaith y gall niferoedd uwch o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ei chael ar farchnadoedd tai lleol.

Mae gan dargedau *Cymraeg 2050*<sup>6</sup> i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg naratif clir ynghylch cyfeiriad polisi iaith. Mae hefyd yn cynnig cyd-destun i'r nod llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>7</sup>, sef *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*. Er mwyn i'r strategaeth lwyddo, mae angen inni gydweithio ar draws y llywodraeth a hynny ar lefel leol a chenedlaethol. Bydd gofyn mynd i'r afael yn holistaidd â materion polisi sydd o bwys strategol i'r iaith, sef:

- Pwysigrwydd cynnal y Gymraeg fel y brif iaith a siaredir mewn cymunedau yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin.
- Mwy o gyfleoedd i blant ac oedolion ddysgu ac i'r rhai sydd eisoes yn dysgu neu sydd eisoes yn siarad yr iaith, ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Heb ddiogelu cymunedau daearyddol sy'n ieithyddol hyfyw yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin, bydd llai o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol pob dydd. Mae hynny yn ei dro yn bygwth siglo sylfeini'r gwaith o greu siaradwyr newydd ledled Cymru. Felly mae angen inni ganolbwyntio ar gynnal gwead cymdeithasol y cymunedau Cymraeg hyn ac osgoi sefyllfa lle nad yw'r ddysgl yn wastad lle bydd yr iaith gymunedol yn newid ar gyfradd uwch o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Ar 23 Tachwedd, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd fod ardal Dwyfor wedi cael ei dewis fel lleoliad i dreialu a gwerthuso nifer o ymyraethau a'u heffaith cronus. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio y tu hwnt i'r ardal beilot i ddatblygu a rhannu'r hyn a ddysgir o bob cwr o Gymru. Mae Dwyfor yn un o gadarnleoedd y Gymraeg – yma, mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd beunyddiol.

<sup>6</sup> [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)

<sup>7</sup> [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 \(legislation.gov.uk/cy/\)](https://legislation.gov.uk/cy/)

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried sut y gallai'r pecyn cyfan o ymyraethau, gan gynnwys y rheiny y byddwn yn eu treialu yn Nwyfor, gael eu hategu ar lefel gymunedol er mwyn cefnogi a diogelu'r Gymraeg, tra hefyd yn osgoi unrhyw ganlyniadau annisgwyl. Mae'n ceisio barn ar ba fentrau ychwanegol sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl, yn enwedig pobl ifanc, fforddio byw a gweithio yn ein cymunedau Cymraeg. Mae cyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd ein hymyraethau arfaethedig. Mae'n bosibl y byddai rhai o'r ymyraethau a gynnigir yn yr ymgynghoriad hwn yn elwa ar gael eu cynnwys ym mheilot Dwyfor.

## **Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg: ymyraethau arfaethedig**

### **Mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a arweinir gan y gymuned**

Yn ystod hydref 2020 cafodd adolygiad o effeithiau COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith. Tynnodd canfyddiadau'r arolwg, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, sylw at y cyfleoedd newydd y gwnaeth sawl grŵp achub arnynt i sicrhau bod modd i'w gweithgareddau barhau. Ond, mae hefyd yn nodi'r heriau a oedd yn wynebu rhai sefydliadau yn sgil y cyfyngiadau.

Mae grwpiau cymunedol Cymraeg yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi defnydd dyddiol o'r Gymraeg, ond rydym yn cydnabod bod COVID-19 wedi effeithio ar fusnesau, gwasanaethau hanfodol a sefydliadau cymunedol eraill yng nghefn gwlad ac ar hyd yr arfordir.

Gwnaeth Is-grŵp Cymunedau Cymraeg y Cyngor Partneriaeth, a oedd yn gyfrifol am arwain yr adolygiad, argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru. Un o'r argymhellion oedd cefnogi'r gwaith o sefydlu mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol cymunedol.

Mae cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol eisoes yn rhan bwysig o'r dirwedd gymdeithasol ac economaidd yng Nghymru. Rydym wedi hen arfer â chymunedau yn dod ynghyd i ddiogelu amwynderau a gwasanaethau lleol, yn ogystal ag elwa ar adnoddau naturiol sy'n dod â buddion economaidd i gymunedau lleol. Ceir enghreifftiau o fentrau cymdeithasol cymunedol: Cwmni Bro Ffestiniog, Partneriaeth Ogwen a Galeri yng Nghaernarfon, er enghraifft, yn dangos sut y gall mentrau cymdeithasol gefnogi a darparu gwasanaeth gwerthfawr i ardal leol. Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o'u sefydliadau ac yn cynnig cyfleoedd gwaith o ansawdd da, sy'n cefnogi'r economi leol. Byddwn yn annog cymunedau eraill i ddilyn eu hesiampl drwy gynnig cymorth ac arweiniad er mwyn helpu i sefydlu cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol cymunedol. Bydd y Gymraeg yn rhan annatod o'r busnes cymdeithasol, a'r nod fydd mynd y tu hwnt i'r ardaloedd hynny. Roedd yr adroddiad [Marchnad Lafur Cymraeg](#)<sup>8</sup> hefyd yn cynnwys argymhellion ynghylch y cyfleoedd ar gyfer modelau mentrau cymunedol.

Nid yw tai cydweithredol yn fodel newydd o ran deiliadaeth tai. Ceir enghreifftiau helaeth ledled Ewrop ac America o sut y gall amrywiol fodelau o dai cydweithredol sicrhau bod tai fforddiadwy yn parhau i fod ar gael i'r gymuned leol. Serch hynny, mae'r mudiad yng Nghymru yn parhau ar lefel gymharol fach ar hyn o bryd.

Gall tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned helpu cymunedau, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i ddatblygu atebion wedi'u teilwra'n

---

<sup>8</sup> [Argymhellion Marchnad Lafur Cymraeg - Arsyllfa](#)

arbennig i ddiwallu eu hanghenion. Gallant arwain at greu cymunedau fforddiadwy, cydlynus a chydnerth drwy gyfrwng cartrefi sy'n eiddo i'r gymuned leol ac a arweinir gan y gymuned. Gallai'r model tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned nid yn unig ddarparu tai newydd, ond hefyd fod yn gyfrwng i brynu a datblygu eiddo o fewn y stoc dai bresennol – yn enwedig eiddo gwag neu dai nad oes fawr o alw amdanynt, a thrwy hynny, eu cyflwyno i farchnad newydd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cefnogaeth i grwpiau tai a arweinir gan y gymuned drwy gyfrwng y rhaglen Cymunedau'n Creu Cartrefi ac yn parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned ac ymddiriedolaethau tir cymunedol fel sydd wedi'i nodi yn ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

Rydym ni'n meddwl bod hyn yn cynnig cyfleoedd penodol i gymunedau Cymraeg. Ein nod yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru drwy ddarparu adnoddau ychwanegol er mwyn helpu i ysgogi a llywio'r gwaith hwn mewn cymunedau Cymraeg lle gall yr angen am anheddau newydd fod yn gymharol fach, ac felly ddim yn opsiwn hyfyw i nifer o ddatblygwyr ei ystyried. Byddwn yn gweithio gyda chymdeithasau tai lleol i archwilio modelau tai cydweithredol neu fodolau tai a arweinir gan y gymuned i edrych ar ffyrdd o ddiwallu anghenion lleol. Er bod yr ymyriadau yn yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gymunedau Cymraeg, gall rhai o'r ymyriadau, yn enwedig mewn perthynas â thai a arweinir gan y gymuned, weithio mewn cymunedau ehangach ledled Cymru.

### **Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:**

- Datblygu pecyn cymorth er mwyn helpu i greu mentrau cymdeithasol a arweinir gan y gymuned a all
  - Greu cyfleoedd gwaith.
  - Diogelu gwasanaethau mewn cymuned.
  - Edrych ar ymyraethau tai ar raddfa fechan a arweinir gan y gymuned o dan y model cydweithredol.

### **Cwestiwn 1**

Ydych chi'n meddwl y gallai model tai cydweithredol neu fodol tai a arweinir gan y gymuned helpu pobl leol i gael mynediad at dai fforddiadwy?

### **Cwestiwn 2**

Sut all Llywodraeth Cymru annog mwy o ymwneud â'r model tai cydweithredol neu'r model tai a arweinir gan y gymuned yng Nghymru?

### **Busnesau cymdeithasol: y sector twristiaeth**

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae nifer o syniadau wedi'u datblygu er mwyn i gymunedau lleol elwa o'r galw am lety gwyliau tymor byr. Mae gennym ni enghreifftiau o fusnesau llety gwyliau tymor byr a thai bynciau (*bunkhouses*) i dwristiaid yn seiliedig ar y gymuned yn cynnwys Pengwern, Caban Gerlan a Menter y Plu. Byddwn yn archwilio ffyrdd o gefnogi mentrau cymdeithasol cymunedol er mwyn sefydlu a datblygu busnesau llety gwyliau tymor byr fel y gall elw busnesau gael ei ail-fuddsoddi i brynu stoc bellach a fydd ar gael i bobl leol ei rentu ar sail gymdeithasol.

Os bydd y model hwn yn llwyddiannus, gellir ei ymestyn i gynnwys perchenogaeth gymunedol ehangach yn y diwydiant twristiaeth.

### **Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:**

- Cefnogi menter gymdeithasol gymunedol sydd eisoes yn bodoli neu sydd newydd ei sefydlu i ddatblygu busnes lle gall busnes llety gwyliau tymor byr ddarparu digon o refeniw i brynu eiddo i'w rentu'n gymdeithasol.

### **Cwestiwn 3**

Beth yw'r heriau wrth geisio cynnal digon o fuddsoddiad a diddordeb lleol mewn mentrau cymdeithasol?

### **Cwestiwn 4**

Pa gymorth neu gymhellion allai Llywodraeth Cymru eu cynnig fel bod cynllun o'r fath yn ennyn diddordeb?

## **Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai**

Wrth gwrs, mae gwerthwyr tai yn chwarae rhan allweddol yn y farchnad eiddo. Mae llawer o'r cwmnïau gwerthu tai mewn ardaloedd gwledig, ar hyd yr arfordir ac mewn ardaloedd Cymraeg wedi bod yno ers amser maith ac mae ganddynt gryn dipyn o arbenigedd a gwybodaeth, gan ddarparu gwasanaeth gwerthfawr i'r cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu. Gall y ffordd y caiff eiddo ei ddisgrifio, a'r manylion a rennir am y gymuned leol, ddylanwadu wrth roi cyd-destun defnyddiol i ddarpar brynwyr – a hynny ar yr eiddo a'r ardal; cyn iddynt wneud penderfyniad terfynol p'un a ydynt eisiau prynu eiddo ai peidio.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwerthwyr tai wedi cefnogi sawl menter i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r cymunedau lleol y lleolir eiddo ynddynt. Er enghraifft, mae gwerthwyr tai, awdurdodau lleol a'r Mentrau Iaith wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru drwy ddsbarthu pecynnau gwybodaeth leol. Rhoddodd y rhain wybodaeth bwysig a defnyddiol i bobl a oedd am brynu eiddo yn yr ardal.

Un o nodau allweddol pecynnau o'r fath yw sicrhau bod gan bobl well dealltwriaeth o broffil cymunedau. Byddwn yn sefydlu Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai ar gyfer cymunedau Cymraeg – er mwyn hwyluso ymchwil a phrosiectau newydd posibl a all gael eu datblygu mewn partneriaeth â gwerthwyr tai lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Bydd y grŵp llywio yn hwyluso amrywiaeth o gynlluniau i atgyfnerthu'r gydberthynas rhwng cymunedau a gwerthwyr tai – ac yn cael cyfle i wella dealltwriaeth, gwybodaeth ac ystadegau am y farchnad dai, a thrwy hynny atgyfnerthu sail dystiolaeth gadarn.

### **Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:**

- Sefydlu Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai i edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu ffyrdd arloesol o werthu tai lleol. Y nod fydd eu datblygu ar y cyd â'r holl rhanddeiliaid gan adnabod camau ymarferol i gefnogi prynwyr lleol er mwyn gwneud yn siŵr y cânt fynediad teg at dai lleol.

### **Cwestiwn 5**

I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai yn ffordd ymarferol ac effeithiol o helpu gwerthwyr tai i chwarae eu rhan yn y gwaith o ddiogelu cymunedau Cymraeg?

### **Cwestiwn 6**

Sut all gwerthwyr tai gael eu hannog neu eu cymell i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio?

## **‘Chwarae teg’ i bobl leol sydd am brynu a rhentu**

Yn y farchnad fel ag y mae, deallwn y pryderon bod rhai eiddo yn cael eu gwerthu neu eu gosod cyn iddynt gael eu rhestru ar y farchnad. Tynnwyd sylw at hyn mewn ardaloedd lle mae'r galw am eiddo yn uchel. Efallai na fydd pobl leol yn ymwybodol bod eiddo ar fin cael ei roi ar y farchnad. Byddwn yn archwilio cyfleoedd i weithio gyda gwerthwyr tai a darpar werthwyr fel bod eiddo ar gael yn y lle cyntaf ac am gyfnod cyfyngedig i bobl leol. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i bobl o ardal wedi'i diffinio'n glir i gael gweld yr eiddo a gwneud y trefniadau ariannol angenrheidiol i'w brynu neu ei rentu. Yn yr un modd, petai cwmni cydweithredol lleol yn awyddus i brynu eiddo, byddai ychydig wythnosau yn cynnig amser digonol i'r cwmni baratoi pecyn ariannol. Fel y nodwyd, cynllun gwirfoddol fyddai hwn y bydd angen ei gynllunio a'i dreialu'n ofalus.

### **Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:**

- Gyda rhanddeiliaid perthnasol, archwilio cyfleoedd i ddatblygu cynllun gwirfoddol a fydd yn galluogi pobl leol i gael y cyfle cyntaf i brynu neu rentu eiddo.

### **Cwestiwn 7**

A fyddai cyfnod byr o amser i breswylwyr lleol weld eiddo a gwneud cynnig arno yn eu helpu i gael mynediad at farchnadoedd eiddo?

### **Cwestiwn 8**

Beth arall allai helpu i wneud yn siŵr bod prynwyr lleol yn cael 'chwarae teg' yn y farchnad dai?

## **Llysgenhadon Diwylliannol**

Mae Cymru yn wlad groesawgar ac rydym yn annog pobl sy'n ymweld â Chymru neu sy'n penderfynu symud i Gymru i ymddiddori yn ein hiaith a'n diwylliant unigryw. Er mwyn hwyluso hyn ymhellach, hoffem sefydlu rhwydwaith o Lysgenhadon Diwylliannol a fydd yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg. Mae [eco-amgueddfeydd LIVE](#)<sup>9</sup> yn rhaglen ddiddorol sy'n ceisio cefnogi cymunedau arfordirol ym Mhen Llŷn a Phenrhyn Iweragh yn Iwerddon i hyrwyddo eu hasedau naturiol a diwylliannol, gan greu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Byddwn yn ystyried beth fydd yr eco-amgueddfeydd yn ei ddysgu o'u hymyraethau ac yn gwneud defnydd o'u profiadau.

### **Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:**

- Creu rhwydwaith o Lysgenhadon Diwylliannol yn y gymuned sy'n hyrwyddo ac yn dathlu ein hiaith, diwylliant a threftadaeth.

### **Cwestiwn 9**

Sut all Llysgenhadon Diwylliannol ymgysylltu ar lefel gymunedol i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol a datblygu gwell dealltwriaeth o'n diwylliant, treftadaeth a'n hiaith?

## **Comisiwn ar gymunedau Cymraeg**

---

<sup>9</sup> [CARTREF | Eco-amgueddfeydd LIVE \(cy.ecomuseumlive.eu\)](#)

Yn sgil cyhoeddi'r adroddiad, *Ail Gartrefi: Datblygu polisiâu newydd yng Nghymru* (Mawrth 2021), gwnaethom anfon ymateb ysgrifenedig at Dr Brooks. Ynddo, rydym yn cadarnhau y byddwn yn sefydlu comisiwn er mwyn diogelu dyfodol yr iaith fel iaith gymunedol. Bydd y comisiwn yn arwain ar ddadansoddiad sosio-ieithyddol o sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau. Bydd y comisiwn yn datblygu model i gyflwyno tystiolaeth i awdurdodau lleol ar hyfywedd yr iaith yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd yn ystyried yr heriau y mae cymunedau Cymraeg yn eu hwynebu ac yn meithrin gwell dealltwriaeth o'r heriau ieithyddol, sosio-economaidd ac ailstrwythuro cymdeithasol a wynebir yn sgil COVID-19 a Brexit. Bydd y comisiwn yn gwneud argymhellion polisi.

Yn sail i hyn, bydd y comisiwn yn dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r newid ieithyddol a fu dros y degawd diwethaf. Yn sgil hyn, bydd yn ystyried pa ymyraethau sydd eu hangen heddiw, ac yn sicrhau bod ymyraethau polisi yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â datblygu modelau sy'n helpu i ddiffinio ardaloedd o ddiddordeb a sensitifrwydd ieithyddol. Y bwriad yw nodi'n glir pa ymyraethau a chymorth sydd eu hangen yn yr ardaloedd hyn i ddiogelu'r iaith, a sut y caiff yr ymyraethau ar y cyd eu defnyddio o safbwynt iaith i sicrhau bod nodau polisi yn cael eu cyflawni.

### **Ardaloedd o ddiddordeb a sensitifrwydd sylweddol**

Bydd y Comisiwn yn edrych ar dystiolaeth empirig a all fod yn sail i argymhellion polisi i fynd i'r afael â'r materion penodol sy'n wynebu'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Gallai hyn fwydo i mewn i feysydd polisi addysg, cynllunio ac ymyraethau eraill sydd wedi'u teilwra neu eu targedu i adlewyrchu amgylchiadau ieithyddol lleol. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu model a fydd yn helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru i allu nodi ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol arbennig lle gall fod yn briodol gwneud argymhellion polisi cyhoeddus wedi'u teilwra o'r fath.

### **Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:**

- Creu comisiwn ar gymunedau Cymraeg a fydd yn edrych ar y gwahanol ffactorau sy'n effeithio ar allu'r Gymraeg i gael ei chynnal fel iaith gymunedol.

### **Cwestiwn 10**

Pa ffactorau penodol ddylai'r comisiwn eu hystyried o ran cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol?

### **Cwestiwn 11**

Yn eich barn chi, pa heriau fydd y comisiwn yn eu hwynebu?

### **Cwestiwn 12**

A oes yna unrhyw enghreifftiau, arferion neu achosion o ddiddordeb a allai helpu'r comisiwn i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar yr iaith?

### **Tai, Gwaith ac Iaith**

Mae angen cynnal economi gref a bod â chyflenwad digonol o dai fforddiadwy er mwyn creu sylfaen i alluogi i'r Gymraeg ffynnu. Un o'r prif heriau y mae cymunedau Cymraeg, gwledig ac ar hyd yr arfordir yn ei hwynebu yw'r ffaith fod pobl ifanc yn allfudo ac yn gadael yn barhaus. Yn ôl data Adroddiad Interim Arfor, gadawodd cyfanswm cronus o 14,240 o bobl ifanc rhwng 20 a 29 oed siroedd Ynys Môn, Ceredigion, Sir Gâr a Gwynedd rhwng 2012 a 2016. Mae sawl rheswm yn gyfrifol am hyn – nid dim ond prinder swyddi neu dai

fforddiadwy – ac mae'n ymwneud â phobl yn dyheu am gael profiadau newydd, yn gymdeithasol ac yn addysgol.

Rydym yn croesawu cyfleoedd i'n pobl ifanc gyflawni eu nodau addysgol ymhellach, ennill sgiliau gwerthfawr a chael profiad gwaith, yng Nghymru a thu hwnt. Dylem hefyd gefnogi'r bobl ifanc hynny sydd am barhau i fyw yn y cymunedau lle cawsant eu magu yn ogystal â chreu a chefnogi cyfleoedd i bobl ddychwelyd.

Yn ddiweddar, mae rhaglen Arfor wedi treialu rhai ymyraethau yn y maes hwn er enghraifft, mae rhaglen Llwyddo'n Lleol wedi ceisio sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau a'r hyder i ddechrau busnesau yn eu cymunedau. Yn y cyfamser, dangosodd pobl ifanc yng Ngheredigion a oedd wedi'i chael hi'n anodd cael gafael ar gyfalaf i ddechrau eu busnesau eu hunain gryn dipyn o ddiddordeb mewn cynlluniau grantiau busnes. Ymyriadau cyfan gwbl economaidd oedd y rhain a lwyddodd i helpu trigolion lleol i aros yn eu cymunedau, ac i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol. Er eu bod yn gynlluniau effeithiol, o brofiad rhaglen Arfor, y ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi pobl i aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd iddynt yw dilyn trywydd mwy 'cofleidiol'. Mae cymorth economaidd yn fwy effeithiol pan gaiff ei gyfuno â chymorth i achub ar gyfleoedd addysgol a chymdeithasol ac i gael mynediad at dai lleol.

### **Cwestiwn 13**

Beth (arall), ynghyd â chymorth tai, y gellir ei wneud i gynorthwyo pobl leol, a phobl ifanc yn arbennig, i barhau i fyw a gweithio yn eu cymunedau?

## **Ymyriadau Presennol Llywodraeth Cymru**

Ar 18 Hydref, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi bolisi economaidd blaengar newydd, sef [Symud Economi Cymru Ymlaen: Adferiad Tîm Cymru, a adeiladwyd gan bob un ohonom](#)<sup>10</sup>. Ein nod yw creu gwell swyddi, lleihau'r bwlch sgiliau, trechu tlodi ac atgyfnerthu gwaith datblygu economaidd rhanbarthol. Rydym yn cydnabod yr her ddemograffig hirdymor sy'n wynebu economi Cymru gan fod cyfran y bobl yng Nghymru rhwng 16 a 64 oed wedi bod yn gostwng o un flwyddyn i'r llall ers canol 2008.

Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at greu economi sy'n rhoi'r hyder i fwy o bobl ifanc gynllunio eu dyfodol yng Nghymru, a thrwy hynny, helpu i greu swyddi ac economïau lleol mwy dynamig. Rydym hefyd yn cydnabod bod mwy o bwyslais ar weithio o bell yn ein galluogi i ystyried cyfleoedd i greu canolfannau i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Drwy wneud hyn, bydd modd cefnogi pobl i weithio'n agosach i gartref, a gellir creu'r amodau a'r cyfleoedd cywir i bobl sydd am ddychwelyd i'r ardaloedd lle cawsant eu magu.

## **Rhaglen Arfor**

Rydym wrthi'n adolygu gwerthusiad annibynnol o raglen beilot Arfor a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd rhaglen Arfor ei chreu i gefnogi economïau lleol Ynys Môn, Ceredigion, Sir Gâr a Gwynedd. Fe'i hariannwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2021. Prif ffocws y rhaglen oedd cefnogi gwaith datblygu economaidd a chreu cyfleoedd i gefnogi'r Gymraeg. Byddwn yn edrych ar ganfyddiadau'r adroddiad gwerthuso yn ofalus ac yn

---

<sup>10</sup> [Symud Economi Cymru Ymlaen: "Adferiad Tîm Cymru, a adeiladwyd gan bob un ohonom", Gweinidog yr Economi | LLYW.CYMRU](#)



ystyried cyfleoedd i fesur ac ehangu ymyriadau wrth i ni adeiladu ar raglen Arfor drwy roi sylw i entrepreneuriaeth, twf busnesau, cadernid cymunedol a'r Gymraeg.

## **Bwrdd Crwn Economi a'r Iaith**

Yn 2019, sefydlodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y pryd Fwrdd Crwn Economi a'r Iaith. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, arweinwyr ac ymarferwyr polisi datblygu economaidd a chynllunwyr iaith. Caiff y Bwrdd Crwn ei gadeirio gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Mae'r Bwrdd Crwn wedi argymhell nifer o gamau a all gefnogi'r economi wledig a chreu'r amodau cywir i'r iaith ffynnu (gweler Atodiad 1). Mae nifer o'r cynigion hyn eisoes yn cael eu datblygu neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith. Byddwn yn ehangu rôl y Bwrdd Crwn i gynnwys tai. Bydd y Bwrdd Crwn Economi, Tai a'r Iaith newydd hefyd yn gyfrifol am oruchwyllo'r gwaith o weithredu'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

### **Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:**

- Ehangu cwrpas y Bwrdd Crwn Economi a'r Iaith i gynnwys Tai, gyda rôl i oruchwyllo gwaith y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

### **Cwestiwn 14**

A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar unrhyw un o'r cynlluniau a nodir uchod?

## **Enwau Lleoedd**

Mae enwau lleoedd yn rhan gynhenid o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru, yn lleol ac yn genedlaethol. Maent yn arbennig o bwysig i naws weledol a chlywedol cadarnleoedd y Gymraeg, a chydabyddwn pa mor bwysig yw hi i drysori'r cyfoeth o enwau lleoedd Cymraeg.

Mae sawl math o enw ac mae'r heriau sy'n berthnasol i bob un ychydig yn wahanol. Caiff enwau aneddiadau (h.y. enwau trefi, pentrefi a dinasoedd), er enghraifft, eu safoni gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac mae eu henwau fel y cyfryw yn rhai sefydledig a heb fod yn destun newid. Ar lefel gymunedol, fodd bynnag, mae yna gyfoeth o enwau ar gyfer nodweddion daearyddol, daliadau tir ac eiddo, gan gynnwys ffermydd a thai. Mae llawer o'r rhain yn hanesyddol, ond maent yn fwy cyfnewidiol nag enwau aneddiadau.

Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i weithio i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi llunio [Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru](#), sef yr unig gofnod statudol o enwau lleoedd hanesyddol yn y DU. Un o'i phrif amcanion yw codi ymwybyddiaeth o'r cyfoeth o enwau hanesyddol yng Nghymru a'u pwysigrwydd fel rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol. Sefydlwyd y rhestr yn 2017, ac mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i adolygu ei gwaith hyd yn hyn ac i lunio argymhellion at y dyfodol.

Mae newidiadau i enwau hanesyddol tai yn peri pryder ar hyn o bryd. Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol wrth ymdrin â cheisiadau ffurfiol i ail-enwi eiddo. Mae rhai newidiadau ffurfiol yn digwydd, ond yn aml gall arwydd gael ei osod ar dŷ heb newid ei enw yn swyddogol, neu gall enw busnes gael ei ychwanegu'n syml at gyfeiriad sy'n bodoli eisoes. Un o'r pethau cyntaf y mae angen inni ei wneud yw cynnal ymchwil i bennu union faint y broblem – ar hyn



o bryd, mae bylchau mawr yn yr wybodaeth sydd gennym ar draws Cymru. Yna, bydd angen inni fod yn greadigol er mwyn canfod dulliau o reoli rhai o'r newidiadau hyn.

Y man cychwyn yn y tymor byr yw gweithredu lleol, sydd eisoes yn digwydd mewn sawl man. Rhagwelwn y bydd gan y Llysgenhadon Diwylliannol rôl i'w chwarae yn hyn o beth. Hefyd, byddwn yn archwilio sut y gellir hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd enwau Cymraeg mewn ffyrdd eraill, e.e. pecynnau croeso / gwybodaeth i newydd-ddyfodiaid, archwilio sut mae gwahanol awdurdodau lleol yn dehongli eu rôl yn y maes hwn, sut i farchnata'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yn well, ac ystyried a ddylai'r Mentrau Iaith fod â rôl yn hyn o beth. Gan fod hwn yn fater o ddiddordeb cenedlaethol, byddwn hefyd yn ceisio ymestyn y gwaith hwn i lefel genedlaethol.

#### **Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:**

- Archwilio sut mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu rolau yn y maes hwn.
- Ystyried y defnydd diweddar o gyfamodau i ddiogelu enwau tai ac archwilio sut y gellir defnyddi'r rhain yn ehangach yn y dyfodol.
- Ystyried ffyrdd newydd o godi ymwybyddiaeth o'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol a'i hyrwyddo.

#### **Cwestiwn 15**

Pa fath o ymyraethau lleol hoffech chi eu gweld i hyrwyddo pwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg, annog pobl i'w cadw ac i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei gweld yn ein cymunedau?

#### **Cwestiynau Cyffredinol**

#### **Cwestiwn 16**

Beth arall ddylai gael ei ystyried fel rhan o'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg?

#### **Cwestiwn 17**

Pa newidiadau fydddech chi'n eu gwneud i'r cynigion sydd yn y cynllun hwn er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol?

#### **Cwestiwn 18**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

## Argymhellion / Camau gweithredu'r Bwrdd Crwn

### 1. *Yr Economi Sylfaenol*

**Pwynt Gweithredu 1:** Addasu ymyraethau rhaglen Arfor yn unol â chanfyddiadau y gwerthusiad a'u prif ffrydio i raglenni economaidd perthnasol.

**Pwynt Gweithredu 2:** Sicrhau bod gwerthusiad o brosiectau a ariennir gan Gronfa Her yr Economi Sylfaenol yn cynnwys ystyriaethau effaith ar y Gymraeg.

### 2. *Mentrau cymdeithasol*

**Pwynt Gweithredu 3:** Creu swyddi newydd yn y gymuned drwy ddatblygu mentrau cymdeithasol newydd gan ddilyn model tebyg i waith Cwmni Bro Ffestiniog a Menter Dyffryn Ogwen ayyb.

**Pwynt Gweithredu 4:** Annog sefydliadau cymunedol Cymraeg i adleoli i gefnogi canol ein trefi a'u cyfeirio at ffyrdd o geisio cymorth o'r gronfa Canol Trefni yn Gyntaf. Darparu cefnogaeth iddynt greu hybiau lleol a fydd yn:

- Caniatáu i bobl weithio'n agosach i'w cartrefi.
- Caniatáu i unigolion weithio gyda'i gilydd yn eu cymuned leol.
- Darparu gofod i'r rhai na allant weithio gartref neu nad ydynt am wneud hynny.

### 3. *Allfudo*

**Pwynt Gweithredu 5:** Buddsoddi a gwella rhaglenni sy'n gysylltiedig â chyflogaeth gan dargedu pobl ifanc i aros neu ddychwelyd i'r ardal (Llwybro, Mônallu, Apprentis, Llwyddo'n Lleol a chynllun tebyg i brosiect Propser yn Iwerddon).

**Pwynt Gweithredu 6:** Lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn fwy na 30%, gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno pecyn cymorth alumni Gyrfa Cymru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn cadw mewn cysylltiad â chyn-ddisgyblion a'u cynorthwyo drwy roi gwybod iddynt am gyfleoedd gwaith yn lleol a llwybrau gyrfa posibl.

### 4. *Cyfleoedd Gwaith*

**Pwynt Gweithredu 7:** Annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Cyfrifon Dysgu Personol i'w galluogi i astudio cyrsiau hyblyg, rhan-amser o amgylch eu cyfrifoldebau gwaith presennol er mwyn datblygu'r sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i gynyddu eu potensial incwm a chyflogaeth.

**Pwynt Gweithredu 8:** Creu rhaglen cyflogadwyedd ieuenctid ar gyfer Cymru wledig mewn cydweithrediad â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyflogwyr lleol er mwyn ymateb i brinder sgiliau a chynllunio'n fwriadus ar gyfer creu gweithlu.

**Pwynt Gweithredu 9:** Yr economi gylchol – creu cyfleoedd gwaith drwy ddefnyddio cynnyrch ac adnoddau lleol, e.e. mae prosiect peilot i brosesu gwlan ym Mlaenau Ffestiniog yn defnyddio gwlan lleol fel cynnyrch gwrtaithe ac inswleiddio gan greu sylfaen ar gyfer swyddi a busnes lleol.

**Pwynt Gweithredu 10:** Byddwn yn datblygu prosiect peilot mewn ardal wledig, a fydd yn annog myfyrwyr sydd wedi gadael Cymru i ddychwelyd er mwyn helpu i addysgu Cymraeg mewn ysgolion yn ystod wythnos olaf y tymor ysgol – gyda'r gobaith y byddant yn cael eu denu i fod yn athrawon mewn ysgolion Cymraeg. Byddwn yn hyrwyddo'r cwrs M.A. hyfforddi athrawon rhan-amser arlein i annog mwy o bobl i ddod yn athrawon cyfrwng Cymraeg.

**Pwynt Gweithredu 11:** Byddwn yn cefnogi'r Urdd i greu seilwaith a fydd yn creu 300 o brentisiaethau dros y tair blynedd nesaf.

## 5. *Prif ffrydio'r Gymraeg*

**Pwynt Gweithredu 12:** Byddwn yn prif ffrydio'r Gymraeg ym mhob rhaglen economaidd a chyflogadwyedd gan sicrhau bod asesiadau effaith ar y Gymraeg yn cael eu cynnal cyn gweithredu polisi neu raglen. Bydd disgwyl bod dangosyddion perfformiad a thargedau yn cael eu gosod a bod cynnydd yn cael ei fonitro'n gyson.

**Pwynt Gweithredu 13:** Cynnal adolygiad o amodau dyfarnu grant safonol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod sefydliadau a ariennir yn cyfrannu at amcanion *Cymraeg 2050*.

**Pwynt Gweithredu 14:** Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Contract Economaidd, byddwn yn cefnogi rheolwyr perthynas y Llywodraeth i ystyried y Gymraeg yn well mewn myraethau economaidd.

## 6. *Caffael*

**Pwynt Gweithredu 15:** Parhau i gydweithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol i amlygu cyfleoedd i ailgyfeirio arian cyhoeddus yn ôl i'n cymunedau. Deall y waelodlin bresennol a gosod targedau realistig ond heriol i'w galluogi i gynyddu gwariant a wneir yn lleol.

## 7. *Digidol*

**Pwynt Gweithredu 16:** Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni cyllid digidol yn cynorthwyo cymunedau gwledig i dderbyn band eang cyflym.

**Pwynt Gweithredu 17:** Yn dilyn canfyddiadau'r arolwg o effeithiau COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod gan grwpiau cymunedol y sgiliau angenrheidiol i wneud y gorau o'u gallu digidol.

## 8. *Tai*

**Pwynt Gweithredu 18:** Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adeiladu cartrefi fforddiadwy a hefyd yn cydweithio gyda cholegau addysg bellach i sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ar gael yn lleol i adeiladu'r eiddo hyn.

**Pwynt Gweithredu 19:** Byddwn yn ystyried argymhellion adroddiad Dr Simon Brooks *Ail gartrefi: Datblygu polisiâu newydd yng Nghymru*. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i edrych ar y posibilïadau i alluogi

cymunedau lleol i brynu eiddo mewn ardaloedd sydd o sensitifrwydd ieithyddol. Y bwriad wedyn fydd iddynt rentu'r eiddo fel llety gwyliau tymor byr a bydd yr elw yn helpu i ddatblygu tai i'w rhentu'n gymdeithasol neu fentrau datblygu cymunedol ar gyfer pobl leol.

## **9. Trafnidiaeth**

**Pwynt Gweithredu 20:** Gweithredu'r ymyraethau ar gyfer ardaloedd gwledig sydd yn *Llwybr Newydd* – y strategaeth drafnidiaeth newydd i Gymru.